GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (SOUTH STREET, RHAEADR GWY, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A470, neu gerllaw iddi, yn Rhaeadr Gwy, Powys.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A470 o'r enw South Street, Rhaeadr Gwy sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sy'n arwain at Ystad Bryngwy Fields hyd at ei chyffordd â'r A44 Stryd y Dwyrain.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gogledd yw mynd ar yr A470 tua'r de, yr A4081 tua'r dwyrain i Landrindod, tua'r gogledd drwy Barc Menter Ddole Road, yr A483 tua'r gogledd i'r Groes a'r A44 tua'r gorllewin i Raeadr Gwy: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de.

Dylai cerbydau ag ochrau uchel dros 14' sy'n teithio tua'r gogledd fynd ar yr A470 tua'r de, yr A4081 tua'r gorllewin i Lanllŷr a Gravel Road tua'r gogledd-ddwyrain i ymuno â'r A44 tua'r dwyrain i Raeadr Gwy: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 5 Tachwedd 2026. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol o 19:00 o'r gloch ar 5 Tachwedd hyd 02:00 o'r gloch ar 6 Tachwedd 2026, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ail-amserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

THE A470 TRUNK ROAD (SOUTH STREET, RHAYADER, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A470 trunk road at Rhayader, Powys.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the A470 trunk road known as South Street, Rhayader that extends from the centre-point of its junction with the road leading to Bryngwy Fields Estate to its junction with the A44 East Street.

The alternative route for northbound traffic is via the southbound A470, eastbound A4081 to Llandrindod Wells, northbound through Ddole Road Enterprise Park, northbound A483 to Crossgates and westbound A44 to Rhayader: vice versa for southbound traffic.

Northbound high-sided vehicles over 14' should take the southbound A470, westbound A4081 to Llanyre and north-eastbound Gravel Road to join the eastbound A44 to Rhayader: vice versa for southbound vehicles.

The Order comes into force on 5 November 2026. The temporary prohibition is expected to operate from 19:00 on 5 November until 02:00 hours on 6 November 2026, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to be in force during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

C WYNN
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

C WYNN
Transport
Welsh Government